# Crynodeb Gweithredol

## Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn nodi cynigion y Llywodraeth.

## Yr Ymgynghoriad

**Y Cefndir**

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i reoleiddio effeithiol a chymesur ym mhob cyfnod o'r broses datgomisiynu niwclear. Gan weithio gyda'r rheoleiddwyr,[1] y Gweinyddiaethau Datganoledig, Adrannau eraill o'r Llywodraeth a'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA), rydym wedi nodi cyfle i ddiwygio'r fframwaith rheoleiddio sy'n gymwys i gyfnodau terfynol y gwaith datgomisiynu a glanhau ar safleoedd niwclear er mwyn caniatáu dull mwy cynaliadwy o reoli gwastraff ac adfer tir.

Mae Deddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) yn nodi system o reolaeth reoleiddiol sydd wedi'i seilio ar broses drwyddedu gadarn a weinyddir gan y Swyddfa dros Reoleiddio Niwclear (ONR). O dan y gyfundrefn hon, mae'n ofynnol bod gan weithredwr safle drwydded i ddefnyddio safle at weithgareddau penodedig megis gweithredu atomfeydd.

Yn ychwanegol at gyfundrefn drwyddedu safleoedd niwclear, mae NIA65 yn gofyn bod darpariaeth ariannol ar gael i dalu hawliadau os ceir digwyddiad niwclear, yn unol â gofynion y gyfraith gydwladol ar rwymedigaethau trydydd partïon niwclear. O dan y trefniadau rheoleiddio presennol, mae rhwymedigaeth trydydd partïon niwclear yn parhau'n hirach yn y Deyrnas Unedig na'r hyn y gofynnir amdano mewn cytundebau rhyngwladol. Rydym yn bwriadu cysoni'r Deyrnas Unedig â'r cytundebau rhyngwladol hyn drwy fabwysiadu Hepgoriad Datgomisiynu Confensiwn Paris 2014 (cyf [**Error! Reference source not found.**]) sy'n gymwys i safleoedd niwclear yng nghyfnodau terfynol y gwaith datgomisiynu a Hepgoriad Gwastraff Lefel Isel Confensiwn Paris 2016 (cyf [**Error! Reference source not found.**]) sy'n gymwys i safleoedd cymwys sy'n gwaredu gwastraff lefel isel. Mae'n bwysig nodi, pan fydd y drefn rhwymedigaeth niwclear yn peidio â bod yn gymwys, yna byddai rhwymedigaeth trydydd parti (o dan y gyfraith gyffredin) yn gymwys i'r safle, gan ddarparu cyfundrefn gyfreithiol amgen sy'n dal yn un gadarn ar gyfer difrod neu anaf trydydd partïon.

[1] Y rheoleiddwyr yw'r Swyddfa dros Reoleiddio Niwclear (ONR), asiantaethau'r amgylchedd (Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru, Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr, ac Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban yn yr Alban) a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Does dim safleoedd niwclear yng Ngogledd Iwerddon ond Asiantaeth Amgylchedd Gogledd Iwerddon (NIEA) yw'r rheoleiddiwr amgylcheddol

Drwy gydol eu cylch bywyd, mae safleoedd niwclear yn cael eu rheoleiddio gan yr ONR (o ran diogelwch niwclear) a’r asiantaeth amgylchedd berthnasol (o ran diogelu'r amgylchedd). Yng nghyfnodau terfynol gwaith datgomisiynu a glanhau, mae’r peryglon a’r risgiau yn syrthio i lefelau sy'n debyg i'r rhai ar safleoedd diwydiannol an-niwclear a'r ffocws yw rheoli gwastraff ac adfer tir. Ar yr adeg hon, rydym o’r farn bod parhau i reoleiddio drwy gyfrwng yr ONR yn ddiangen. Rydym yn cynnig felly y dylid caniatáu i’r ONR ddod â’r drwydded niwclear i ben pan fydd yn fodlon bod materion diogelwch niwclear wedi’u datrys, gan drosglwyddo'r cyfrifoldeb am reoleiddio gweithgareddau gwaith i’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). **Bydd y safleoedd yn dal i gael eu rheoleiddio gan yr asiantaeth amgylchedd berthnasol hyd nes y gellir eu rhyddhau i'w defnyddio heb gyfyngiad, a allai fod flynyddoedd neu ddegawdau ar ôl diwedd y drwydded niwclear** (gweler cyf [**Error! Reference source not found.**]). Yn amodol ar ganiatâd cynllunio ac amodau’r drwydded amgylcheddol, gall fod modd ailddefnyddio’r safleoedd hyn tra byddant yn dal o dan reoliadau amgylcheddol. Rydym yn rhag-weld felly y bydd y cynigion hyn yn arwain at ailddefnyddio cyn safleoedd niwclear yn gynharach.

Yn olaf, rydym yn bwriadu mynd i'r afael â mater sy'n ymwneud â rhwymedigaeth trydydd partïon niwclear ar safleoedd gwaredu gwastraff ymbelydrol. Mae cyfleusterau gwaredu sy'n cynnwys gwastraff ymbelydrol yn cael eu rheoleiddio gan yr asiantaeth amgylchedd berthnasol o dan y Rheoliadau Sylweddau Ymbelydrol ni waeth a yw’r cyfleuster gwaredu wedi’i leoli ar safle niwclear neu beidio.

Mae rhai cyfleusterau gwaredu ar gyfer gwaredu mater niwclear yn dod o dan y gofynion rhyngwladol ar gyfer rhwymedigaeth trydydd parti (Confensiwn Paris) fel y'i diwygiwyd gan Brotocol 2004 (cyf [**Error! Reference source not found.**,**Error! Reference source not found.**]) (y disgwylir iddynt ddod i rym yn y dyfodol agos. Cyfeirir at y cyfleusterau gwaredu hyn fel "safleoedd gwaredu perthnasol" yn NIA65 a bydd cyfundrefn rhwymedigaeth trydydd partïon yn gymwys iddynt, er na fydd y gyfundrefn drwyddedu niwclear yn gymwys. Yn 2016 gwnaed Gorchymyn (cyf [**Error! Reference source not found.**])) yn diwygio NIA65 i wneud y newidiadau angenrheidiol a bydd yn dod i rym pan fydd Protocol 2004 wedi’i ddilysu. O dan Orchymyn 2016, bydd yr asiantaeth amgylchedd berthnasol, yn rhinwedd ei swydd fel y rheoleiddiwr ar gyfer gwarediadau gwastraff ymbelydrol yn gyfrifol am bennu diwedd y cyfnod cyfrifoldeb o ran rhwymedigaeth trydydd partïon niwclear ar gyfer y cyfleusterau gwaredu hyn. Er hynny, mae NIA65 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn 2016) wedi’i geirio fel nad yw'n bosibl cael "safle gwaredu perthnasol" ar safle niwclear. Felly, pan fo cyfleuster gwaredu wedi’i leoli ar safle niwclear, yr ONR sy’n gyfrifol am bennu diwedd y cyfnod cyfrifoldeb o ran rhwymedigaeth trydydd parti niwclear, yn hytrach na’r asiantaethau amgylchedd.

Rydym yn bwriadu caniatáu i’r ONR hepgor cyfleusterau gwaredu perthnasol o ffiniau trwydded y safle niwclear, os yw wedi’i bodloni bod materion diogelwch

niwclear wedi'u datrys. Gan hynny, yr asiantaeth amgylchedd berthnasol a fydd yn pennu diwedd y cyfnod cyfrifoldeb o ran rhwymedigaeth trydydd parti niwclear dros y safleoedd gwaredu hyn. Trosglwyddir y cyfrifoldeb dros reoleiddio iechyd a diogelwch gweithgareddau gwaith yn y cyfleusterau gwaredu hyn o'r ONR i'r HSE.

Cyhoeddodd y Llywodraeth bapur trafod ar egwyddorion y cynigion ym mis Tachwedd 2016 a chyhoeddodd yr ymgynghoriad manwl ar 8 Mai 2018. Bu'r ymgynghoriad yn agored am wyth wythnos a daeth i ben ar 3 Gorffennaf 2018. I ategu'r ymgynghoriad, cynhaliodd BEIS dri gweithdy i'r rhanddeiliaid yng Nghaeredin (6 Mehefin), Llundain (12 Mehefin) a Bangor (14 Mehefin).

**Ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad**

Cawsom 50 o ymatebion ysgrifenedig gan amrywiaeth o unigolion, awdurdodau lleol, grwpiau rhanddeiliaid safleoedd, cwmnïau yn y diwydiant niwclear, academia, un Corff Anllywodraethol (NGO) ac un undeb llafur. Roedd y mwyafrif mawr o'r ymatebwyr o blaid y cynigion, ond o dan amodau yn aml. Y prif bryderon a godwyd oedd:

- bod angen eglurder ar yr union brosesau i sefydlu a yw safle yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Hepgoriad Datgomisiynu Confensiwn Paris, a all yr ONR dderbyn cais am ildio trwydded y safle niwclear ac a all yr ONR hepgor cyfleuster gwaredu o ffiniau'r safle niwclear trwyddedig;

- y dylai gweithredwr y safle ymgysylltu â chynllunwyr, swyddogion datblygu economaidd a chynghorwyr yr awdurdodau lleol drwy gydol y broses, o ddileu'r drwydded i optimeiddio'r gwaith glanhau. Yn benodol, dylai gweithredwyr safleoedd ystyried Cynlluniau Lleol wrth wneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer gwaredu neu cyfleusterau gwaredu *in-situ;*[2]

- y dylai penderfyniadau ar y broses adfer tir fod yn agored a thryloyw. Dylai cofnodion gael eu harchifo a bod ar gael yn hwylus i'r awdurdodau lleol, yr asiantaethau amgylchedd a datblygwyr y dyfodol;

- y gall fod angen i'r asiantaethau amgylchedd adolygu eu trefniadau codi tâl.

**Yr ymateb i'r pryderon hyn a'r camau nesaf**

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu deddfu ar y materion hyn pan fydd amser y Senedd yn caniatáu hynny.

Rydym wedi nodi pryderon yr ymatebwyr. Mewn ymateb i geisiadau am eglurder ynglŷn â'r gweithdrefnau ar gyfer ymadael â'r gyfundrefn rhwymedigaeth trydydd

---

[2] At ddibenion y ddogfen hon, mae'r term gwaredu "in-situ" yn cynnwys gadael strwythurau neu briddoedd presennol yn eu lle (gan adeiladu rhwystrau ychwanegol os oes eu hangen i gynnwys y deunydd) a gwaredu at ddiben, er enghraifft, defnyddio rwbel a halogwyd yn ysgafn i lenwi mannau gwag ar y safle.

partïon niwclear a derbyn ceisiadau am ildio trwydded, mae'r ONR yn bwriadu drafftio ac ymgynghori ynghylch canllawiau diwygiedig i ategu'r penderfyniadau hyn. Mae'r ONR hefyd yn bwriadu datblygu canllawiau ar ei meini prawf ynghylch hepgor cyfleusterau gwaredu gwastraff o ffiniau'r safle niwclear. Wrth ddrafftio'r dogfennau cyfarwyddyd hyn, mae'r ONR yn bwriadu gweithio'n agos gyda'r asiantaethau amgylchedd a'r HSE.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu'n gynnar â'r awdurdodau lleol ac yn bwriadu ymestyn pwerau'r ONR i ganiatáu iddi ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr safleoedd hysbysu'r awdurdodau lleol pan wneir cais i orffen neu amrywio trwydded niwclear.[3] Mae BEIS yn annog cwmnïau sydd â thrwydded safle i ymgysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Gwastraff lleol ac i gymryd i ystyriaeth y Cynlluniau Lleol, gan gynnwys y cynllun gwastraff a mwynau, os yw'n briodol, wrth ddatblygu cynigion ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r awdurdodau lleol, NuLeAF a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) i sicrhau bod gan yr awdurdodau lleol yn Lloegr yr wybodaeth angenrheidiol i'w galluogi i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ar gyfer gwaredu *in-situ*. Mae cynllunio yn fater datganoledig ac mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn cymryd camau tebyg.

Roedd llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ymwneud â phrosesau adfer tir sy'n digwydd o dan y fframwaith rheoleiddio amgylcheddol (deddfwriaeth ddatganoledig berthnasol o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) a Rheoliadau Awdurdodiadau Amgylcheddol (yr Alban) – y cyfeirir atyn nhw o hyn ymlaen ar y cyd fel y Rheoliadau Sylweddau Ymbelydrol yn y ddogfen hon [cyf [**Error! Reference source not found.**,**Error! Reference source not found.**,**Error! Reference source not found.**]). Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn bwriadu gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r Rheoliadau Sylweddau Ymbelydrol er bod BEIS, Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn gweithio gyda'r rheoleiddwyr i ystyried a oes angen gwelliannau er mwyn sicrhau bod asiantaethau'r amgylchedd yn gallu cyflawni'r gwaith rheoleiddio angenrheidiol ar y safleoedd. Bydd unrhyw welliannau a nodir yn destun ymgyngoriadau ar wahân.

Yn ddiweddar mae asiantaethau'r amgylchedd wedi cyhoeddi canllawiau sy'n nodi'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau ar reoli gwastraff a glanhau ynglŷn â'r hepgoriad o'r Rheoliadau Sylweddau Ymbelydrol (cyf [**Error! Reference source not found.**]) ar safleoedd niwclear. Mae'r canllawiau hyn yn gofyn am ymgysylltu â'r gymuned leol a chofnodion tryloyw drwy gydol cyfnod y drwydded, a allai fod yn flynyddoedd neu ddegawdau. Dim ond pan fydd gwaith monitro wedi dangos eu bod yn addas i'w ddefnyddio heb gyfyngiad y caiff safleoedd eu rhyddhau o'r rheoliadau hyn.

[3] Gweler "Licensing Nuclear Installations", 4ydd argraffiad: Ionawr 2015, ONR, adrannau 121-124.

Bydd asiantaethau'r amgylchedd hefyd yn adolygu eu systemau codi tâl er mwyn sicrhau eu bod yn addas at eu diben.

Yn olaf, bydd BEIS yn trafod effeithiau'r cynigion hyn gyda'r Gronfa Rhwymedigaethau Niwclear.